Wrth ychwanegu cynefin newydd, ni all orgyffwrdd â chynefin wedi'i gynnwys sy'n perthyn i gategori gwahanol. Gofynnir i chi a ydych am ddileu'r cynefin presennol a rhoi'r cynefin newydd yn ei le.




1. Os byddwch yn clicio ar **Ydw**, yna bydd arwynebeddau'r cynefin presennol yn newid i adlewyrchu'r gorgyffwrdd a chewch gyfle i ychwanegu 'Gwir Arwynebedd' ar gyfer y cynefin presennol a 'Gwybodaeth Ychwanegol' os oes angen. Gallwch ddiwygio gwir arwynebedd y cynefin y mae'r cynefin newydd rydych wedi'i ychwanegu yn gorgyffwrdd ag ef os oes angen.
2. Os byddwch yn clicio ar **Nac ydw** bydd yr arwynebedd yn clipio i ffin y cynefin presennol.
3. Os byddwch yn clicio ar **Dileu lluniad**, caiff yr arwynebedd wedi'i luniadu ei ddileu.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Nid yw'r cwestiynau am Gyfrifianellau Carbon ar y dudalen hon yn orfodol ac nid yw'r ffaith eich bod wedi'u cwblhau yn eich rhwymo i wneud cais ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Er nad yw'n orfodol cwblhau'r cwestiynau, rhaid i chi ddarllen y dudalen hon er mwyn cyflwyno eich ffurflen.

Gallwch ddefnyddio'r botymau radio i ateb y cwestiynau. Os byddwch yn ateb ‘Ydw’ i'r cwestiwn cyntaf bydd cwestiynau ychwanegol yn ymddangos. Os byddwch wedi dewis 'Arall', gallwch deipio enw'r Cyfrifiannell Carbon a ddefnyddiwyd.



